# CYD-CYFARFOD O PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET / ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 21 Hydref 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Cynghorwyr**: | M.Crowley, S.E.Freeguard, J.Hale, S.Harris, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Jones, D.Keogh, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, R.Phillips, L.M.Purcell, S.Rahaman, S.Renkes, A.J.Richards, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R.Bowen, R.Crowhurst, P.Curnow, S.Curran, C.Davies, A.Evans, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, J.Merrifield, S.Phillips, C.Plowman, A.Thomas a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, R.Davies, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd S Reynolds yn Gadeirydd a bod y Cynghorydd M Harvey yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn ar y cyd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| A Llewelyn | Parthed: | Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, |

Cynnig i sefydlu
ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan fod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe ac yn llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ond mae ganddi hawl i siarad a phleidleisio.

| | | |
|---|---|---|
| L Purcell | Parthed: | Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan fod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Gynradd Rhyd-y-fro ac yn llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe ond mae ganddi hawl i siarad a phleidleisio. |
| R Davies | Parthed: | Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Godre'r-graig ac Ysgol Gyfun Ystalyfera. |
| R Phillips | Parthed: | Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar y Rhaglen Stategol Gwella Ysgolion, Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws ac Ysgol |

Gynradd Gymraeg Pontardawe ond mae ganddi hawl i siarad a phleidleisio.

| | | |
|---|---|---|
| A Amor | Parthed: | Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, Cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg 3 - 11 oed i gymryd lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ond mae ganddo hawl i siarad a phleidleisio. |

3. **RHAGLEN STRATEGOL GWELLA YSGOLION - CYNNIG I SEFYDLU YSGOL SAESNEG 3-11 OED YN LLE YSGOLION CYNRADD ALLTWEN, GODRE'R-GRAIG A LLANGIWG (WEDI'I AMGÁU YM MHAPURAU'R CABINET)**

Cyflwynwyd y Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion i'r Aelodau, a fyddai, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yn ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer plant 3-11 oed yn lle Ysgolion Cynradd Alltwen, Godre'r-graig a Llangiwg; byddai'r ysgol arfaethedig yn cynnwys canolfan cymorth dysgu arbenigol a byddai mewn adeiladau newydd i dderbyn disgyblion o ddalgylchoedd presennol y tair ysgol gynradd y soniwyd amdanynt, y byddai pob un ohonynt yn cau ar 31 Awst 2024. Esboniodd swyddogion mai un o brif ddibenion yr ymgynghoriad oedd cael sylwadau a phryderon y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r ysgolion hynny, er mwyn cynnig yr ateb gorau posib yn ardaloedd y cymoedd.

Cynigiwyd y byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar dir dan berchnogaeth y cyngor ym Mharc Ynysderw Pontardawe a byddai'n rhan o gampws cymunedol dysgu, iechyd a lles Ysgol Gymunedol Cwmtawe a Chanolfan Hamdden Pontardawe.

Pwysleisiodd swyddogion nad oedd staff, disgyblion a llywodraethwyr Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn ymwneud i raddau mawr â’r cynnig hwn. Soniwyd yn yr adroddiad fod Cynllun Amlinellol Strategol Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru yn flaenorol ar gyfer ysgol ganol

newydd i blant 3-16 oed; fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys llywodraethwyr a'r holl ysgolion yn y cwm, roedd cytundeb eang bod angen ysgol gynradd newydd ac nad oedd cefnogaeth i fodel 3-16. Penderfynwyd felly y dylid diwygio'r cynllun i fodel ysgol gynradd 3-11 oed.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â mân-fanylion yr ysgol, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Dywedwyd y byddai lle i 630 o ddisgyblion cynradd amser llawn a 140 o ddisgyblion meithrin rhan-amser yn yr ysgol arfaethedig; hon fyddai'r ysgol gynradd fwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot;
- Soniodd swyddogion fod yr elfennau cynnal a chadw sydd heb eu gwneud yn yr ysgol a fyddai'n cael eu dileu yn cynnwys dros £2 filiwn ar gyfer cael gwared ar yr ysgolion cynradd a thros £1.2 miliwn yn gysylltiedig â'r pwll nofio;
- Nodwyd yr achos dros greu'r Ganolfan Cymorth Dysgu i'w hadeiladu ar ôl cwblhau adolygiadau ar y math o leoedd a gynlluniwyd ynghyd â’r nifer a'r ddarpariaeth asesu ar draws Castell-nedd Port Talbot; nodwyd bod angen lleoedd ychwanegol ym meysydd Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA) ac Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (ACEY). Cynigiwyd bod yr ysgol newydd yn cynnwys Canolfan Cymorth Dysgu ar gyfer hyd at 16 o ddisgyblion oed cynradd sydd â datganiad ASA;
- Amlygodd yr adroddiad y byddai pwll nofio newydd yn cael ei sefydlu ac y byddai'n disodli pwll nofio presennol Pontardawe; mynegwyd i Lywodraeth Cymru y byddai'r pwll newydd yn darparu cyfleuster ychwanegol ynghyd â'r ganolfan hamdden, a bydd yn adnewyddu ac yn gwella'r cyfleusterau iechyd a lles yn ardal Cwm Tawe;
- O ran cludiant, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn byw o fewn 2 filltir i'r safle newydd ac y byddai'r rheini a oedd yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol yn gymwys ar gyfer y cymorth cludiant fel a nodwyd yn y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol;
- Esboniwyd y byddai'r cynnig yn effeithio ar Lywodraethwyr Ysgolion, gyda thair ysgol yn cau; byddai angen sefydlu corff llywodraethu cysgodol tua 18 mis cyn i'r ysgol newydd agor, a byddai ganddo lawer o gyfrifoldebau pwysig a fyddai'n cynnwys penodi'r

Pennaeth. Yn dilyn hyn, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r Pennaeth greu strwythur staffio.

Dywedwyd bod y cyfnod ymgynghori’n dechrau ar 3 Tachwedd 2020 ac yn para tan 5 Ionawr 2021; nodwyd bod hyn dair wythnos yn hwy na'r angen. Esboniodd swyddogion eu bod yn bwriadu ymestyn yr ymgynghoriad i roi'r amser ychwanegol i'r cyhoedd oherwydd sut roedd y pandemig wedi effeithio ar weithdrefnau arferol ac oherwydd bod cyfnod y Nadolig wedi'i gynnwys yn y dyddiadau.

Gofynnodd yr Aelodau a allai swyddogion wneud sylwadau ar niferoedd presennol yr ysgolion cynradd o'u cymharu â’r lleoedd posib a fyddai yn yr ysgol newydd, ac os oedd y niferoedd hyn yn dangos y gallai ysgolion pellach gau yn y dyfodol i gyrraedd nifer y lleoedd a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mynegodd swyddogion fod y broses o ymdrin â'r niferoedd ar gyfer ysgolion newydd yn un anodd a'i bod yn cynnwys ystyried nifer o bwyntiau:

- Roedd swyddogion yn ymwybodol o nifer y disgyblion a oedd yn yr ysgolion ar hyn o bryd, a thros y blynyddoedd nesaf roeddent yn rhagweld y byddai'r niferoedd hynny'n gostwng ychydig. Nodwyd, wrth gynllunio ysgol newydd, fod angen ystyried pob disgybl a oedd yn byw o fewn dalgylch y tair ysgol ac ar hyn o bryd roedd tua 240 o ddisgyblion yn mynd i ysgolion eraill y tu mewn a'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol; dan y Polisi Derbyniadau, gallent i gyd hawlio lle yn yr ysgol newydd.
- Hysbyswyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i swyddogion, wrth gynllunio ysgol newydd, edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac ystyried datblygiadau tai yn y dyfodol; nododd y CDLl ar hyn o bryd fod 700 o unedau wedi'u cynllunio ar gyfer yr ardal mewn trafodaeth dros y 5-6 blynedd nesaf a fyddai'n denu nifer o ddisgyblion ychwanegol.
- Soniwyd bod y tair ysgol a oedd yn rhan o'r cynnig naill ochr i'r cwm, rhwng Rhos a Rhyd-y-fro; roedd digon o le yn y ddwy ysgol gynradd hyn, ac felly os yw nifer y disgyblion yn fwy na nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd, byddai lle iddynt yn Ysgol Gynradd Rhos neu Ysgol Gynradd Rhyd-y-fro. Ychwanegwyd ei bod yn ofynnol i swyddogion ddarparu addysg yn yr ardal ehangach, felly roedd peidio â chynnwys y ddwy ysgol gynradd hyn yn y cynnig yn darparu hyblygrwydd yn y dyfodol mewn perthynas â niferoedd ysgolion.

Roedd y rhesymau a amlygwyd yn esbonio pam yr oedd yn ymddangos bod niferoedd yr ysgol newydd yn llawer mwy na nifer y disgyblion a oedd yn yr ysgolion ar hyn o bryd ac amcanestyniadau'r disgyblion; Roedd yn rhaid i swyddogion sicrhau y byddai Castell-nedd Port Talbot yn gallu darparu addysg i ddisgyblion yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol, gan ystyried yr wybodaeth gyfredol a'r CDLl.

Holodd yr Aelodau ynghylch y trefniadau ariannu cyfalaf a refeniw ar gyfer elfen pwll nofio'r cynnig. Dywedwyd, er bod y cynnig hwn yn canolbwyntio ar yr ysgol newydd, roedd cyflwyno'r pwll nofio’n caniatáu Aelodau i ystyried yr holl ffactorau o ran ariannu; cyfanswm y pecyn ariannu oedd tua £22.5 miliwn a byddai Llywodraeth Cymru’n ariannu 65% o'r cyfanswm. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y pwll nofio wedi ychwanegu tua £8 miliwn at y datblygiad a bod 65% o'r £8 miliwn yn dod dan ddull ariannu ysgolion yr 21ain ganrif, gan y byddai dros 2,000 o ddisgyblion yn elwa o ran iechyd a lles. Hysbyswyd yr Aelodau fod y pwll nofio’n rhan o elfen gyfalaf y cynnig ac o ran ariannu a chyfalaf, roedd y cyfan yn un cynllun; roedd refeniw ychydig yn wahanol gan fod Hamdden Celtic ar hyn o bryd yn rhedeg cyfleusterau hamdden y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegwyd y byddai'r pwll nofio’n cael ei reoli gan y gweithredwr hamdden ac y byddai costau rhedeg y pwll yn cael eu rheoli gan y gyllideb hamdden. Roedd rhai o'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd drwy gael y ddau gyfleuster ar yr un safle’n cynnwys y ffaith mai dim ond un dderbynfa/derbynnydd fyddai ei angen yn lle dau a byddai'n darparu mynediad uniongyrchol i ddisgyblion mewn sawl ysgol.

Yn dilyn y drafodaeth, gofynnodd yr Aelodau a fyddai balans y cyllid, a dichonoldeb y peth, yn dibynnu ar y pecyn cyfan yn cael ei gymeradwyo; pe bai un o'r ysgolion yn dewis peidio ag ymrwymo, er enghraifft, a fyddai hyn wedyn yn effeithio ar y cyllid. Dywedodd swyddogion y byddai newidiadau sylweddol i'r achos busnes, megis ysgol yn dewis peidio ag ymrwymo, yn arwain at orfod cyflwyno achos busnes newydd i Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, byddai'r achos wedyn yn cael ei wanhau gan y byddai llai o ddisgyblion yn cael mynediad uniongyrchol at y manteision a ddisgrifiwyd, a byddai'n llai tebygol y byddai Llywodraeth Cymru’n cymeradwyo'r cais am gyllid.

Gan fod llawer o ddisgyblion yn mynd i Ysgol Alltwen, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r ymateb o'r ymgynghoriadau anffurfiol. Eglurodd swyddogion fod y rheini a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad anffurfiol yn cytuno'n gyffredinol fod angen

ysgol gynradd newydd ar gyfer y cwm a bod ganddynt farn debyg nad oedd angen ysgol 3-16 oed; roedd y rheini a gymerodd ran yn y drafodaeth yn pryderu y byddai ychwanegu pedair ysgol yn yr ardal yn ormod, felly roeddent yn cefnogi'r math o gynnig a gynhwyswyd yn yr adroddiad. O ran Ysgol Gynradd Alltwen, nodwyd bod ganddi broblemau sylweddol iawn o ran yr adeiladau a llawer o adeiladau dros dro; nid oedd yn safle a fyddai'n hawdd ei ddatblygu ac nid oedd ganddo nifer mawr o ddisgyblion o'i gymharu ag ysgolion cynradd mwy newydd.

Gofynnwyd pa ystyriaeth a roddwyd hyd yn hyn i'r effaith ar y Gymraeg. Eglurodd swyddogion mai'r cam nesaf, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, fyddai cwblhau asesiad effaith llawn a fyddai'n cynnwys yr effaith ar y Gymraeg, fel y byddai'r manylion a'r ffeithiau llawn ar gael pe bai'r Aelodau'n gwneud penderfyniad am y cynnig, os a phryd y daw'r amser.

Manylwyd mai teitl gweithredol yr ysgol oedd "Ysgol Newydd ar gyfer Cwm Tawe"; Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith nad oedd y teitl hwn yn gwneud synnwyr a gofynnodd a ellid ei newid, a nododd a chadarnhaodd swyddogion hyn.

Nodwyd bod gan Godre'r-graig ganran uchel iawn o ddisgyblion o'r dalgylch, gan adlewyrchu mai ysgol bentref/gymunedol ydoedd; bwriadwyd i'r trosglwyddiad i Bontardawe fod yn rhywbeth dros dro, felly gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf am statws lliniaru'r rwbel o’r chwarel a/neu sefydlu ysgol newydd ar gyfer y gymuned ar safle amgen. Dywedwyd y byddai unrhyw gynnig a fyddai'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori’n cael ei ystyried yn briodol ac y byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r Aelodau. Esboniodd swyddogion, er bod Ysgol Gynradd Godre'r-graig mewn llety dros dro ar hyn o bryd, nad oedd yr ysgol yn rhan o'r cynnig oherwydd y sefyllfa honno, a'i bod yn ofynnol cynnwys yr wybodaeth hon yn yr adroddiad gan ei bod yn ffactor a oedd yn effeithio ar Godre'r-graig ar hyn o bryd. Hysbyswyd yr aelodau fod cynigion ad-drefnu ysgolion bob amser yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar y 4 egwyddor (Safonau Addysgol, Angen am Leoedd a Hygyrchedd Ysgolion, Ansawdd Llety a Rheolaeth Ariannol Effeithiol) ac o edrych ar yr egwyddorion hynny, cytunwyd bod yr ysgol yn addas i ymgynghori â rhanddeiliaid yn ei chylch mewn perthynas â darparu addysg 21ain ganrif i'r disgyblion. Ychwanegwyd bod Godre'r-graig wedi'i chynnwys yn y cynnig cyntaf yn 2015, yn ogystal â'r cynnig presennol, felly hyd yn oed os nad oedd yr ysgol mewn adeiladau dros dro, byddai'n dal i gael ei chynnwys yn y cynnig.

Mynegodd yr Aelodau bryderon am y cyhoedd yn gallu ymateb i'r ymgynghoriad heb gael manylion mewn perthynas â'r ffordd fynediad i'r ysgol newydd arfaethedig; tynnwyd sylw at y ffaith bod y ffordd bresennol eisoes wedi'i hasesu fel un a oedd â nifer o broblemau o ran diogelwch priffyrdd a bod llawer mwy o ddisgyblion y byddai angen eu cludo ar hyd y ffordd honno pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai materion a godwyd ynghylch mynediad yn amod cynllunio; mae prosesau cynllunio'r cyngor yn gofyn am gynllunio cyn cyflwyno cais a phroses gynllunio lawn, y mae'r ddwy ohonynt yn brosesau trwyadl iawn. Felly, pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo a'u symud i'r cam cynllunio, byddai'r rheini a oedd wedi mynegi pryderon yn cael gwybodaeth lawn am y mater hwn.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd fod y Cynllun Teithio i'r Ysgol yn mynnu bod pob ysgol, ynghyd â Thîm Diogelwch Ffyrdd y Cyngor, wedi ymrwymo i wella diogelwch ffyrdd yn y gymuned leol a chynyddu ymwybyddiaeth o broblemau teithio; Gofynnodd yr Aelodau a allai swyddogion gadarnhau bod y cynnig yn bodloni'r gofynion hynny. Soniwyd bod Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, o safbwynt priffyrdd, yn galluogi i ran sylweddol o'r gyllideb gael ei neilltuo ar gyfer gwella priffyrdd; ni fyddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi oni bai fod y trefniadau rheoli traffig yn yr ardal honno'n cael eu gwella'n sylweddol. Ychwanegwyd bod gan y safle arfaethedig lawer o dir a lle ar gyfer ffactorau megis bysus sy'n troi a pharcio ar gyfer staff, a fyddai'n helpu o ran hygyrchedd. Roedd swyddogion yn hyderus, pe penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun, y byddai'r sefyllfa bresennol yn cael ei gwella oherwydd gofynion adrannau Priffyrdd a Chynllunio'r cyngor, gan ei bod wedi bod yn broses debyg ar gyfer datblygiadau ysgol newydd eraill yn y Fwrdeistref Sirol.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn manylu ar bryderon ynghylch yr effaith bosib ar ddisgyblion meithrin, a gofynnodd sut y byddai hyn yn cael sylw yn y cynnig. Cadarnhaodd swyddogion fod y pryderon wedi'u mynegi yn ystod y trafodaethau anffurfiol ac y byddai'r cyfnod ymgynghori'n nodi graddau'r problemau hyn; Byddai angen i swyddogion ddeall o hyn, pa mor arwyddocaol yw'r broblem ac i faint o bobl er mwyn ymateb.

Mewn perthynas â'r opsiwn chwech a ffefrir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a oedd yn rhagweld y byddai 140 o ddisgyblion meithrin yn mynychu'r dosbarth meithrin, gofynnodd yr Aelodau pa mor hyderus oedd swyddogion y byddai cynifer â hyn yn mynychu;

dywedwyd y byddai swyddogion, o ystyried profiadau'r gorffennol, yn hyderus y byddai'r dosbarth meithrin yn llawn.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, roedd Meysydd Chwarae Cymru wedi dweud ei fod yn ymatebol i newid lleol ac yn hyblyg wrth ymwneud â pherchnogion tir ac y bydd yn hapus i ystyried y posibilrwydd o gyfnewid tir i ddarparu lle ar gyfer yr ysgol newydd; Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch colli rhannau o'r tir a oedd yn addas ar hyn o bryd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon a lle chwarae i blant. Soniodd swyddogion fod trwyddedau'r caeau chwarae yn rhan o'r trefniadau prydlesu cynnal tir yr oedd pob un o gaeau chwarae'r cyngor yn rhan ohonynt; y tîm cynnal tiroedd oedd yn gyfrifol am ddosbarthu pob gêm yn ardal Castell-nedd a Chwm Tawe, ac ar hyn o bryd nid oedd defnydd helaeth o'r cae chwarae ym Mharc Ynysderw. Nodwyd bod swyddogion wedi delio â Meysydd Chwarae Cymru sawl gwaith ac roeddent yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau gyda'i gilydd, fodd bynnag nid oeddent yn gallu ymrwymo i unrhyw gytundebau eto; cynhaliwyd trafodaethau gyda Meysydd Chwarae Cymru a'r rheini sy'n rhoi'r trwyddedau ynghylch y meysydd.

Yn dilyn hyn, hysbyswyd yr Aelodau fod swm o arian yn y gyllideb £23 miliwn i wella draenio ar ddau o'r meysydd, er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r caeau hynny, sy'n golygu nad oedd cyfleuster yn cael ei golli ym Mharc Ynysderw o ran y galw. Soniwyd bod swm o arian hefyd ar gyfer caffael tir pe bai angen ei ddefnyddio yn y dyfodol. Roedd swyddogion wedi sicrhau'r arian i ddiogelu Meysydd Chwarae Cymru a chyfleusterau chwarae ym Mharc Ynysderw; er y cynigiwyd adeiladu ysgol fawr a phwll nofio, sicrhawyd yr Aelodau na fyddai amwynder yn cael ei golli, gan gynnwys lle chwarae'r plant; yn hytrach byddai'n gwella'r hyn a oedd yno eisoes.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â manylion y cyfnod ymgynghori lle mynegodd yr Aelodau rai o'u pryderon ynghylch y broses. Eglurodd y swyddogion fod y broses yr oeddent yn ei hawgrymu ar gyfer yr ymarfer ymgynghori ychydig yn wahanol i'r arfer oherwydd y pandemig, fodd bynnag ni fyddai'r ymdrech a fyddai'n gysylltiedig â hyn yn llai trwyadl. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, nodwyd y byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Aelodau ac yn gofyn iddynt gymeradwyo un o dri argymhelliad; parhau â'r cynnig cyfredol, diwygio'r cynnig neu wrthod y cynnig yn gyfan gwbl. Tynnwyd sylw at y ffaith pe bai rhywun yn cyflwyno cynnig amgen, a oedd yn wahanol i'r wyth a gynhwyswyd yn

yr adroddiad a ddosbarthwyd, y byddai swyddogion yn ei ystyried ac yn adrodd yn llawn i'r Aelodau ar ei fanteision a'i anfanteision.

Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Aelodau a ellid estyn dyddiad y cyfnod ymgynghori ymhellach. Dywedwyd bod y dyddiadau ymgynghori wedi'u hestyn o dair wythnos, ond awgrymodd swyddogion y gellid ychwanegu pythefnos ychwanegol at yr amserlen; pe bai'r Aelodau'n cytuno i hyn, byddai angen diwygio'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau a gynigiwyd ar unrhyw adeg y dylai'r ysgol newydd fod yn ysgol Gymraeg. Esboniwyd bod yn rhaid i swyddogion, wrth ystyried cynnig ad-drefnu ysgolion, nodi sut y trefnwyd addysg yn yr ardal; ar hyn o bryd roedd tair ysgol gynradd yn ardal Cwm Tawe a oedd â darpariaeth Gymraeg:

- Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur
- Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe
- Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws

Tynnwyd sylw at y ffaith bod lleoedd yn y maes cynradd ym mhob un o'r ysgolion hynny i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg; roedd gwaith newydd ddod i ben yn ddiweddar yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe lle gwariwyd £1.6 miliwn ar yr ysgol i gynyddu'r lleoedd posib. Nodwyd bod safonau darpariaeth a nifer y lleoedd yn yr ysgolion hynny wedi cynyddu. Ychwanegodd swyddogion, pan edrychon nhw'n wreiddiol ar y pedair egwyddor ac adolygu'r trefniadau yn y cwm, fod y meini prawf wedi'u harwain i'r casgliad bod angen ysgol Saesneg ei chyfrwng; gan fod darpariaeth ddigonol yng Nghwm Tawe ar gyfer addysg Gymraeg. Hysbyswyd yr Aelodau fod yn rhaid i'r cyngor fodloni'i ofyniad cyfalaf o 35% o gyllid; ariannwyd 35% o arbedion effeithlonrwydd o gyllidebau ysgolion dirprwyedig, a bydd yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed o gau'r tair ysgol a nodir yn yr adroddiad yn galluogi'r cyngor i ariannu elfen 35% y bil cyfalaf.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ei fod yn dweud bod y cyngor yn ymrwymedig i gefnogi staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo'n orfodol ac mae wedi sicrhau cefnogaeth ac ewyllys da cymdeithasau athrawon/undebau llafur a chyrff llywodraethu ar draws y cyngor drwy addewid cyflogwyr. Gofynnodd yr Aelodau pwy oedd y cyflogwr yn hyn o beth a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am yr addewid. Cadarnhaodd swyddogion mai'r awdurdod lleol oedd y cyflogwr, fodd bynnag rhoddwyd y cyfrifoldeb am ymdrin â'r rhan fwyaf o benderfyniadau yn yr ysgol, gan gynnwys staffio, i'r corff

llywodraethu. Nodwyd bod yr addewid wedi'i sefydlu nifer o flynyddoedd yn ôl, lle gofynnwyd i bob corff llywodraethu ymrwymo iddo fel y byddai unrhyw aelodau o staff yn cael eu hystyried ymlaen llaw pe bai cynigion ad-drefnu ysgolion yn effeithio arnynt; roedd hyn wedi dod yn arfer ac roedd y mwyafrif helaeth o ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol wedi anrhydeddu ymrwymiad yr addewid. Ychwanegwyd mai ymrwymiad drwy gytundeb ydoedd ac nad oedd unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol, fodd bynnag roedd yn rhywbeth yr oedd teulu'r ysgolion wedi'i gymryd o ddifri; hyd yma nid oes neb wedi eu diswyddo'n orfodol.

Soniodd yr adroddiad y byddai'r cyfleusterau adeiladu newydd yn cael eu rhoi 'yn agos at' Ysgol Gymunedol Cwmtawe; Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar yr hyn y mae 'agos at' yn ei olygu a ble yn union y byddai safle'r ysgol a'r pwll nofio. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi bod mewn rhai trafodaethau â phenseiri, fodd bynnag oherwydd camau cynnar y cynnig roedd llawer o waith o hyd yr oedd angen ei wneud ar hyn gan gynnwys casglu'r mân-fanylion. Cadarnhawyd y byddai'r cyfleusterau newydd gyferbyn ag Ysgol Gymunedol Cwmtawe; byddai'r lleoliad yn sicrhau y gallai disgyblion o'r ysgol uwchradd a'r ysgol gynradd wneud defnydd dyddiol o'r cyfleusterau hamdden gyda chyn lleied â phosib o darfu a chyn lleied o bellter â phosib. Ychwanegwyd, o safbwynt cynllunio a phensaernïaeth, fod pob math o reoliadau yr oedd angen eu dilyn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion wedi bod mewn cysylltiad ag unigolion fel yr heddlu, priffyrdd a theithio cynaliadwy i drafod mater y ffordd fynediad. Cadarnhawyd bod trafodaethau wedi dechrau â’r adran priffyrdd, a fyddai'n rhan fawr o'r broses; roedd y cynnig hwn yn gyfle, gyda'r cyllid, i wella'r datblygiad priffyrdd nad oedd efallai wedi bod ar gael fel arall.

O ran y pwll nofio, soniodd yr adroddiad fod y pwll presennol yn cael ei ddefnyddio gan rai ysgolion yn yr ardal, ond nod y cynllun oedd cynyddu'r defnydd gan ysgolion a'r gymuned ehangach oherwydd ei leoliad craidd; Gofynnodd yr Aelodau pa dystiolaeth oedd gan swyddogion i gefnogi hyn ac a fyddai bwlch rhwng cau'r pwll presennol ac agor y pwll newydd. Nodwyd nad oedd Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn defnyddio'r pwll nofio presennol oherwydd costau cludiant, felly byddai 13,000 o ddisgyblion yn elwa ar unwaith o'r cyfleusterau newydd; y bwriad oedd cau'r hen bwll, ac agor y pwll newydd y diwrnod canlynol nesaf i atal colli amwynder am gyfnod o amser.

Gofynnodd yr Aelodau, pe na bai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn cael ei dderbyn, beth fyddai'n digwydd i'r holl gynlluniau ar gyfer y cyllid. Dywedwyd y byddai angen i swyddogion ddechrau'r broses o'r dechrau a pharatoi achos busnes newydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru o ran cyllid, gan mai'r opsiwn a ffefrir (rhif chwech yn yr adroddiad a ddosbarthwyd) oedd y cynnig yr oedd swyddogion wedi sicrhau cyllid ar ei gyfer.

Gofynnwyd i swyddogion a oeddent wedi ystyried agwedd amgylcheddol yr ysgol gan y byddai llawer mwy o ddisgyblion yn teithio ar fws neu gar i gyrraedd y safle; dywedwyd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, y byddai asesiad effaith llawn o'r agweddau bioamrywiaeth yn cael ei gynnal.

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad ychwanegol ffurfiol, i'r argymhellion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:-

'Cyn dechrau ar y broses ymgynghori, bydd swyddogion yn ymchwilio i weld a oedd yn ddichonadwy i Godre'r-graig gadw ysgol gynradd bentref, naill ai ar ei safle presennol gyda buddsoddiad priodol neu safle adeiladu newydd yn y gymuned, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau er mwyn penderfynu a ddylid cynnwys hyn fel rhan o'r ymgynghoriad cyn dechrau ar y broses ymgynghori'

Gofynnwyd a fyddai manylion y diwygiad ffurfiol yn peryglu'r cais am gyllid gan Llywodraeth Cymru mewn unrhyw ffordd ac a fyddai'n effeithio ar amserlenni'r gwaith hwn sy'n cael ei wneud. Eglurodd y swyddogion pe bai unrhyw un o'r tair ysgol a enwir yn penderfynu tynnu'n ôl o'r cynnig, y byddai angen datblygu cynllun ad-drefnu ysgol newydd yn ogystal ag achos newydd am gyllid; ni fyddai'r sicrwydd a oedd gan swyddogion ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cyllid (65% o £23 miliwn gan Lywodraeth Cymru) yn ei le mwyach. Tynnwyd sylw at y ffaith pe bai unrhyw un yn cyflwyno'r diwygiad arfaethedig fel rhan o'r ymarfer ymgynghori yn lle hynny, y byddai swyddogion yn gwneud y gwaith sydd ei angen ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau yn ystod y cam nesaf, er mwyn atal oedi i'r ymgynghoriad.

Gofynnodd yr Aelodau pe byddai ysgol newydd ychwanegol yn cael ei hadeiladu yn yr ardal, fel yr awgrymwyd yn y diwygiad arfaethedig, o ble y byddai'r cyllid hwnnw'n dod; Byddai angen i Lywodraeth Cymru adolygu unrhyw achos busnes posib, fodd bynnag, o brofiad blaenorol, tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ysgolion yr 21ain ganrif i adeiladu ysgol gynradd â lle i 200 o ddisgyblion.

Galwyd enwau at ddibenion penderfynu ar y bleidlais; methodd y gwelliant o ganlyniad i alw'r rhestr enwau.

Roedd aelodau'r pwyllgor craffu yn cefnogi'r cynnig i estyn y cyfnod ymgynghori am bythefnos arall ac y dylid diwygio rhannau priodol o’r adroddiad i adlewyrchu'r canlynol:

- Bod yr ymgynghoriad yn dechrau ar 3 Tachwedd 2020 ac yn dod i ben ar 19 Ionawr 2021, mae hyn yn cynnwys y pythefnos ychwanegol.
- Bydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2021.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o’r cynigion gwreiddiol a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ynghyd â'r dyddiadau ymgynghori diwygiedig, ac iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**